Llwybr Clawdd Offa o Drefyclo

Ewch i ganolfan Clawdd Offa a'r ffin genedlaethol cyn mynd am dro ar hyd strydoedd hyfryd Trefyclo a'r Llwybr Cenedlaethol anhygoel.

Distance 8.4 kilometres / 5.2 miles
Duration 3 hours

Wildlife | Great views | Public transport | History | Hilly & steep | Dog friendly

Use the QR code or link below to view this walk on our website or app.

View the walk here





Download the free **Go Jauntly** app and follow step-by-step, photo-led guides, maps and descriptions - it's the easiest way to explore!

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 1: Croeso i'r gylchdaith hon o orsaf drenau Trefyclo, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Step 2: Sylwch fod y llwybr hwn yn dilyn lonydd gwledig tawel heb lwybr troed.

Step 3: Mae gorsaf Trefyclo yn rhan o Reilffordd Calon Cymru. Mae'n rheilffordd wledig ysblennydd rhwng Abertawe ac Amwythig.

Step 4: Cadwch lygad am arwyddion Station Link wrth i chi fynd am y rhan gyntaf hon.

Step 5: Gyda'r orsaf y tu ôl i chi, ewch i'r dde ar hyd ymyl y maes parcio.

Step 6: Trowch i'r chwith i Ffordd yr Orsaf.

Step 7: Croeswch afon Tefeidiad.

Step 8: Dilynwch Ffordd yr Orsaf wrth iddi wyro i'r chwith.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 9: Mae'r palmant yn eithaf cul mewn mannau.

Step 10: Ar y dde mae tafarn yr Horse & Jockey os oes angen lluniaeth arnoch chi.

Step 11: Dilynwch Ffordd yr Orsaf wrth iddi wyro i'r chwith eto.

Step 12: Mae meinciau yn yr ardal i gerddwyr ar y chwith ger y gofeb ryfel.



Follow photo-led guides and maps on the free Go Jauntly app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 13: Trowch i'r dde i Stryd Lydan. Mae llawer o fusnesau annibynnol ar gael yma.

Step 14: O'ch blaenau mae cloc tref Trefyclo lle mae'r ffordd yn fforchio. Ewch i'r chwith i ddarganfod y busnesau lleol.

Step 15: Neu, gwyrwch i'r dde i Stryd y Gorllewin a pharhau i fyny'r rhiw.

Step 16: Ewch heibio i erddi a chanolfan gymunedol leol.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 17: Trowch i'r dde i fynd i ganolfan groeso Clawdd Offa. Mae toiledau, siop a chaffi ar gael yma.

Step 18: Y tu allan, gallwch gael stamp Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa ar gyfer y rhan hon o'r daith.

Step 19: Dilynwch lôn fynediad y maes parcio o amgylch cefn yr adeilad gan fynd yn syth ymlaen ar y llwybr palmantog sy'n troi'n llwybr graean.

Step 20: Ewch heibio i hysbysfwrdd, sy'n dathlu 50 mlynedd ers i Lwybr Clawdd Offa agor yn swyddogol yn 1971.

Step 21: Trowch i'r chwith wrth y mynegbost ac ewch ar hyd y llwybr i ddod o hyd i blac ar gyfer Clawdd Offa ar bostyn.

Step 22: I'r chwith o'r plac, ewch i lawr at y clawdd ei hun drwy ddilyn yr handlen bren. Trowch i'r dde i gerdded drwyddo.

Step 23: Ar ben arall y rhan fer hon, dewch o hyd i'r garreg dal gyda phlaciau coffa sy'n dathlu agoriad y Llwybr Cenedlaethol.

Step 24: Ewch y tu ôl i'r gofeb drwy lwybr cul. Ewch ar draws y glaswellt i ymuno â'r prif lwybr graean.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 25: Trowch i'r chwith i'r llwybr ac ewch i lawr y bryn.

Step 26: Trowch i'r chwith wrth y gyffordd yn fuan wedyn, gan gerdded gydag afon Tefeidiad ar y dde.

Step 27: Mae man hyfryd gyda meinciau yma wrth lan yr afon. Gwych i bobl a chŵn fel ei gilydd.

Step 28: Os ewch chi ymlaen ar lwybr glan yr afon am ychydig, fe welwch chi bont gydag arwydd ar gyfer y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Step 29: Lle delfrydol i dynnu lluniau!

Step 30: Pan fyddwch chi'n barod, ewch yn ôl i fyny'r rhiw tuag at Ganolfan Clawdd Offa.

Step 31: Ewch yn ôl i'r ffordd, a phan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny, croeswch Stryd y Gorllewin a cherdded i fyny Stryd Norton ar yr ochr arall.

Step 32: Wrth y gyffordd â Stryd Russell, ewch yn syth ymlaen.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 33: Yna trowch i'r dde i Stryd y Farchnad.

Step 34: Dilynwch Stryd y Farchnad wrth iddi blygu i'r chwith. Yna trowch i'r chwith ger tafarn y Plough i fynd i lawr Ffordd y Plough.

Step 35: Pasiwch yr orsaf dân.

Step 36: Ar ddiwedd y ffordd, trowch i'r dde a cherdded i lawr y rhiw ar lwybr tarmac gyda bolardiau.



Take this walk with you - photos, maps and directions in the app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 37: Ar ôl cyrraedd Heol y Felin, croeswch hi a mynd ar lwybr cul arall gyferbyn, ac arno arwydd Ffordd Glyndŵr.

Step 38: Mae golygfeydd hyfryd ar draws y gerddi i Goed Ffridd Fawr.

Step 39: Trowch i'r dde i Ffordd George. Does dim palmant yma felly byddwch yn ofalus.

Step 40: Ar ddiwedd y ffordd, dilynwch y llwybr o flaen y tai hardd.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 41: Mae rhai canghennau crog isel ar hyd y darn hwn. Mae Nant Wylcwm i'r chwith.

Step 42: Pan gyrhaeddwch Lôn y Felin, croeswch ac ymuno â'r llwybr troed cul ar yr ochr arall, ac arno arwydd ar gyfer Ffordd Glyndŵr.

Step 43: Dilynwch y llwybr cul o amgylch y tŷ a'r ardd.

Step 44: Croeswch ben Mill Field Close a mynd o amgylch rhwystr metel i fynd ymlaen ar lwybr troed cul rhwng y gwrychoedd.

Step 45: Trowch i'r chwith i Ffordd Pen-y-bont a cherdded i'r pen.

Step 46: Ychydig cyn y gyffordd â'r brif ffordd, beth am aros i fwynhau'r ardal eistedd gymunedol ar y chwith.

Step 47: Croeswch Ffordd y Ffridd yn ofalus. Trowch i'r dde ar yr ochr arall a mynd heibio i'r orsaf betrol.

Step 48: Yn syth ar ôl y garej, trowch i'r chwith i Lôn Woodhouse.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 49: Does dim llwybr troed ar hyd y ffordd yma. Pan gafodd y daith hon ei chreu, dim ond un car basiodd ond dylech edrych a gwrando am gerbydau.

Step 50: Mae'r rhan hon yn eithaf serth felly cymerwch eich amser. Dilynwch y lôn wrth iddi blygu i'r chwith ac i'r dde.

Step 51: Pasiwch Upper Woodhouse Farm ar y dde.

Step 52: Dilynwch y lôn i'r chwith wrth i chi basio troad ar y dde. Mae'n llai serth yn y rhan hon.

Step 53: Ymhen ychydig, trowch i'r chwith drwy gât wrth ymyl mynegbost. Gwnewch yn siŵr bod cŵn ar dennyn o hyn ymlaen.

Step 54: Caewch y gât y tu ôl i chi ac ewch i'r dde i ddilyn llwybr ar hyd ochr dde'r cae.

Step 55: Dydy'r llwybr ddim bob amser yn hawdd ei weld. Ewch rhwng y goeden a'r gwrych ar hyd ymyl y cae.

Step 56: Trowch o gwmpas yma i fwynhau golygfeydd hyfryd y tu ôl i chi hefyd.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 57: Ewch yn eich blaen tuag at ben arall y cae.

Step 58: Ewch drwy'r gât a heibio i ardal storio fferm.



More walks like this one, free on the Go Jauntly app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 59: Ewch drwy gât arall.

Step 60: Yna, ewch i mewn i'r cae nesaf, eto ar hyd yr ymyl dde.

Step 61: Wrth ymyl pen y cae hwn, ewch drwy'r gât neu'r bwlch yn y ffens a throi i'r chwith i gerdded ar hyd Lôn Woodhouse unwaith eto.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 62: Mae'r rhan nesaf yn eithaf gwastad felly does dim mwy o riwiau am dipyn - mae'r darn anoddaf drosodd!

Step 63: Ewch heibio i fythynnod pert ac adeiladau fferm.

Step 64: Edrychwch i'r dde am olygfeydd ar draws y dirwedd fugeiliol a'r tir âr.

Step 65: Ar ddiwedd y lôn, trowch i'r chwith i lôn arall heb lwybr troed.

Step 66: Os ydych chi'n cerdded ddiwedd yr haf, cadwch lygad am aeron ar y ddraenen ddu yn y gwrychoedd tal.

Step 67: Pasiwch adeilad fferm arall.

Step 68: Yna, cadwch lygad am gât fetel a mynegbost ar y chwith. Llwybr Clawdd Offa dyma ni'n dod!

Step 69: Ewch drwy'r gât a throi i'r chwith i ddilyn y llwybr glaswelltog cul sydd wedi'i farcio ar hyd ymyl y cae.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 70: Ewch drwy'r gât.

Step 71: Daliwch ati i fynd ymlaen. Allwch chi weld y llinell o goed yn rhedeg mewn llinell o'ch blaen? Maen nhw'n nodwedd amlwg yn y cloddwaith.

Step 72: Ewch drwy'r gât a chroesi'r cae nesaf. Roedd gwartheg yn y cae hwn pan grëwyd y daith gerdded. Ewch drwy'r gât ar yr ochr arall.

Step 73: Dilynwch y llwybr glaswelltog cul drwy'r cae hwn, y cae olaf cyn i chi gyrraedd y clawdd.

Step 74: Ewch i'r cae nesaf, gan gerdded yn gyntaf drwy ardal fach heibio i'r rhedyn.

Step 75: Mae hyn yn arwain at brif ardal agored y cae gyda Chlawdd Offa ar y dde.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 76: Lle mae'r croesfannau fferm i'r dde, gallwch weld mwy o'r cloddwaith, a grëwyd yn ôl y sôn yn yr 8fed ganrif.

Step 77: Mae'r clawdd amddiffynnol, a enwyd ar ôl Offa, brenin Eingl-Sacsonaidd Mersia, yn ymestyn dros 82 milltir...

Step 78: ... ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr.



Follow photo-led guides and maps on the free Go Jauntly app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 79: Ar ddiwedd y cae, ewch drwy'r gât ac ymlaen ar y llwybr nesaf i'r clawdd.

Step 80: Wrth ymyl ael y bryn, trowch i'r dde drwy'r gât.

Step 81: Cyn i chi wneud hynny, bachwch y cyfle i fwynhau'r golygfeydd ar y chwith.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 82: Dilynwch y llwybr sy'n torri ar draws y clawdd a arferai fod yn ffin rhwng Mersia, tir Offa i'r dwyrain, a theyrnas Powys yng Nghymru.

Step 83: Ewch i fyny ochr arall y cloddwaith a dilyn y llwybr i'r chwith ar hyd ymyl chwith y cae.

Step 84: Pasiwch farciwr concrid hŷn y Llwybr Cenedlaethol.

Step 85: Ar ddiwedd y cae hwn, ewch drwy gât fetel ac ymlaen i'r cae nesaf.

Step 86: Ar ddiwrnod clir, gallwch weld golygfeydd gwych o Fryniau Swydd Amwythig o'ch blaen.

Step 87: Ewch drwy gât arall ac i mewn i gae âr.

Step 88: Cafodd y daith gerdded hon ei chreu ym mis Medi ac roedd y llwybr wedi gordyfu yma.

Step 89: Roedd rhyw fath o feipen yn cael ei thyfu yma ac roedd bron yn barod i'w chynaeafu.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.

Step 90: Gwyliwch eich cam wrth i chi fynd ar hyd y llwybr.

Step 91: Mae'r clawdd yn dal ar eich chwith ond yn llai amlwg yma ar ôl canrifoedd o dywydd garw a ffermio.

Step 92: Gadewch y cae âr gan fynd i mewn i un arall a oedd yn cynnwys gwartheg a defaid adeg creu'r llwybr.

Step 93: Ewch drwy gât arall gyda Choed Ffridd Fawr i'w gweld ar yr ochr arall.

Step 94: Mae'r llwybr yn dal i fynd â chi ar hyd ymyl chwith y cae. Mae golygfeydd godidog ar draws y cwm i'r chwith yma.

Step 95: Dilynwch y llwybr wrth iddo blygu'n raddol i'r dde. Mae cwrs golff ar y dde.

Step 96: Rydych chi nawr yn cerdded ochr yn ochr â'r goedwig.



Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 97: Cadwch y ffens i'r chwith a dilyn y llwybr sydd wedi'i farcio wrth i chi ddechrau mynd am i lawr.

Step 98: Mae rhai canghennau crog isel ar hyd y darn hwn.

Step 99: Trowch i'r chwith ac ewch drwy'r gât fetel ar lwybr lludw drwy'r goedwig.

Step 100: Ewch heibio i farciwr arall y Llwybr Cenedlaethol sydd wedi'i orchuddio â mwsogl.



Take this walk with you - photos, maps and directions in the app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 101: Allwch chi weld beth sy'n edrych fel y clawdd i'r chwith yma?

Step 102: Mae'r rhan olaf hon drwy'r goedwig yn serth iawn ac yn debygol o fod yn llithrig mewn tywydd gwlyb. Cymerwch eich amser.

Step 103: Pan gyrhaeddwch y trac tarmac, croeswch ef a mynd yn syth ar y llwybr cul ar yr ochr arall.

Step 104: Ewch ymlaen i lawr y rhiw ar ddarn serth arall o dan y porth bwaog.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 105: Ar waelod y llwybr lludw, dilynwch i'r dde a phasio'r garejys.

Step 106: Yna trowch i'r chwith i Ffridd Terrace tuag at y brif ffordd.

Step 107: Trowch i'r dde ac yna i'r chwith i gyrraedd Ffordd y Ffridd ger mynegbost y llwybr cenedlaethol. Croeswch pan fydd hi'n ddiogel.

Step 108: Trowch i'r chwith i lawr Lôn Larkey.

Step 109: Trowch i'r chwith a mynd drwy'r maes parcio wrth arwydd mesen y llwybr cenedlaethol. Mae toiledau cyhoeddus yma.

Step 110: Ewch o dan y bwa o dan adeilad gyda ffasâd pren.

Step 111: Dewch allan ar Stryd Lydan a chroesi'r ffordd pan fydd yn ddiogel i chi wneud hynny. Trowch i'r dde ar yr ochr arall.

Step 112: Trowch i'r chwith ar unwaith i Ffordd yr Orsaf.

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.



Step 113: Dilynwch y ffordd wrth iddi wyro i'r dde. Rydych chi'n mynd yn ôl yr un ffordd i'r orsaf nawr.



More walks like this one, free on the Go Jauntly app.

www.gojauntly.com

Download on the App Store

GET IT ON Google Play

Step 114: Ewch yn ôl dros afon Tefeidiad.

Step 115: Yna, trowch i'r dde i ddychwelyd i Orsaf Trefyclo. Am daith a hanner heddiw - gwych!

Disclaimer: Directions are provided as guidance only. Weather, construction, closures or other factors may affect routes. Please take care when crossing roads and avoid private land. Always follow local signage and use common sense.
Created by Go Jauntly Ltd © 2026. Last Updated: 29 November 2023.